**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 782 (Cy.93)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) 1992 sy'n rheoleiddio'r telerau ynghylch darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

Mae Rheoliad 2 yn cynnwys darpariaethau sy'n diwygio'r cyfnod o amser sydd gan ddeintyddion i ymateb i gwynion a wneir gan neu ar ran cleifion neu gleifion blaenorol o dan drefn gwyno'r practis. Caiff yr amser a ganiateir i ddeintyddion gydnabod cwynion yn ffurfiol ei leihau o dri diwrnod i ddau ddiwrnod (ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith a gwyliau banc), tra caiff yr amser a ganiateir i roi i achwynydd grynodeb ysgrifenedig o ymchwiliadau a chasgliadau ei gynyddu o 10 i 20 diwrnod gwaith (ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith a gwyliau banc).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 782 (W.93)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The National Health Service (General Dental Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

These Regulations further amend the National Health Service (General Dental Services) Regulations 1992 which regulate the terms on which general dental services are provided under the National Health Service Act 1977.

Regulation 2 contains provisions amending the length of time dentists have to respond to complaints made by or on behalf of patients or former patients under their practice based complaints procedure. The time permitted to dentists to formally acknowledge complaints is reduced from three to two days (excluding Saturdays, Sundays, Christmas Day, Good Friday and bank holidays), whereas the time permitted to provide a complainant with a written summary of investigations and conclusions is increased from 10 to 20 working days (excluding Saturdays, Sundays, Christmas Day, Good Friday and bank holidays) .

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 782 (Cy.93)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *18 Mawrth 2003* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 35(1), 36(1) a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**a**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso ac effaith**

**1**.-(1) Enw'r rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2003.

(a) 1977 p.49; *gweler* adran 128(1), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i) i gael y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

Diwygiwyd adran 35(1) gan O.S. 1985/39, erthygl 7; gan Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17), adran 2(1), Atodlen 1, paragraff 24 a chan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15) ("Deddf 2001"), adran 22(1), (2)(a)(i) a (ii).

Diwygiwyd adran 36(1) gan Ddeddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol 1984 (p.48), adran 5(4), Atodlen 3, paragraff 5; gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17 ) ("Deddf 2002"), adran 2(5), Atodlen 2, Rhan 1, paragraffau 1, 10(1) a (2); gan O.S.1981/432, erthygl 3(3)(a); gan Ddeddf 1990, adran 24(2); gan Ddeddf 2001, adran 20(1), (4)(a) ac adran 22(1), (3)(b)(c); gan Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"), adran 9(3); gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49), adran 25, Atodlen 2, paragaff 4; gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (p. 46), adran 41(10), (12), Atodlen 2, paragraff 12, Atodlen 3, Rhan 1.

Diwygiwyd Adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2); gan Ddeddf 1999, adran 65(1), Atodlen 4, paragraffau 4, 37(1) a 6; gan Ddeddf 2001, adran 67(1), Atodlen 5, Rhan 1, paragraffau 5(1) a 13(b) a chan Ddeddf 2002, adran 6(3)(c).

O ran Cymru, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 35(1), 36(1) a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo, O.S. 1999/672.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 782 (W.93)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The National Health Service (General Dental Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

| | |
|---|---|
| *Made* | *18th March 2003* |
| *Coming into force* | *1st April 2003* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 35(1), 36(1) and 126(4) of the National Health Service Act 1977(**a**) hereby makes the following Regulations:

**Citation, commencement, application and effect**

**1**.-(1) These Regulations may be cited as the National Health Service (General Dental Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2003 and shall come into force on 1st April 2003.

(a) 1977 c.49; *see* section 128(1) as amended by the National Health Service and Community Care Act 1990 (c.19) ("the 1990 Act"), section 26(2)(g) and (i), for the definitions of "prescribed" and "regulations".

Section 35(1) was amended by S.I. 1985/39, article 7; the Health Authorities Act 1995 (c.17), section 2(1), Schedule 1, paragraph 24, and the Health and Social Care Act 2001 (c.15) ("the 2001 Act"), section 22(1), (2)(a)(i) and (ii).

Section 36(1) was amended by the Health and Social Security Act 1984 (c.48), section 5(4), Schedule 3, paragraph 5; the National Health Service Reform and Health Care Professions Act 2002 (c.17) ("the 2002 Act"), section 2(5), Schedule 2, Part 1, paragraphs 1, 10(1) and (2); S.I.1981/432, article 3(3)(a); the 1990 Act, section 24(2); the 2001 Act, section 20(1),(4)(a) and section 22(1), (3)(b)(c); the Health Act 1999 (c.8) ("the 1999 Act"), section 9(3); the Health and Medicines Act 1988 (c.49), section 25, Schedule 2, paragraph 4; the National Health Service (Primary Care) Act 1997 (c. 46), section 41(10), (12), Schedule 2, paragraph 12, Schedule 3, Part 1.

Section 126(4) was amended by the 1990 Act, section 65(2); by the 1999 Act, section 65(1), Schedule 4, paragraphs 4, 37(1) and (6); the 2001 Act, section 67(1), Schedule 5, Part 1, paragraphs 5(1) and 13(b) and by the 2002 Act, section 6(3)(c).

As regards Wales, the functions of the Secretary of State under sections 35(1), 36(1) and 126(4) of the National Health Service Act 1977 are transferred to the National Assembly for Wales under article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, S.I. 1999/672.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gynwys i Gymru yn unig.

(3) Diwygir yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) 1992(**a**) yn unol â darpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn.

**Diwygio paragraff 31A yn Atodlen 1**

**2**. Diwygir paragraff 31A o Atodlen 1 (Cwynion) yn unol â'r paragraffau canlynol -

(a) ym mharagraff 6(b)(ii) yn lle'r gair "three", rhodder y gair "two"; a

(b) ym mharagraph (6)(c) yn lle'r ffigur "10", rhodder y ffigur "20".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**).

18 Mawrth 2003

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(2) These Regulations shall apply to Wales only.

(3) The National Health Service (General Dental Services) Regulations 1992(**a**) shall be amended in accordance with the following provisions of these Regulations.

**Amendment of paragraph 31A of Schedule 1**

**2**. Paragraph 31A of Schedule 1 (Complaints) shall be amended in accordance with the following paragraphs -

(a) in paragraph 6(b)(ii) for the word "three", substitute the word "two"; and

(b) in paragraph (6)(c) for the figure "10", substitute the figure "20".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**).

*D.Elis-Thomas*

18th March 2003

The Presiding Officer of the National Assembly for Wales.

(a) O.S. 1992/661, yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S.1996/704 sy'n mewnosod paragraffau 31A, B ac C yn Atodlen 1.

(b) 1998 p.38.

(a) S.I. 1992/661, the relevant amending instrument is S.I.1996/704 which inserts paragraphs 31A, B and C into Schedule 1.

(b) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2003 Rhif 782 (Cy.93)**

**2003 No. 782 (W.93)**

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003

The National Health Service (General Dental Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

©① Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090691-8

9 780110 906911

**£1.75**

W88/03/03 ON